# TGAU CYNLLUNIAU MARCIO

**HAF 2018**

**TGAU (NEWYDD)**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU Llenyddiaeth Gymraeg**

**Uned 1 Haen Uwch Haf 2018**

**Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd** gan Emyr Lewis

**Hedfan** gan Grug Muse

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Er bod y ddwy gerdd yn mynd i'r un cyfeiriad, maen nhw'n dechrau'n wahanol i'w gilydd. Mae Emyr Lewis yn canolbwyntio ar y gwaharddiad, ac mae Grug Muse yn canolbwyntio ar y posibiliadau y mae'r hedfan yn ei gynnig.

- Mae oerfel yn rhywbeth sy'n amharu ar gyrraedd y nod yn y ddwy gerdd, ond mae'r ddau fardd yn eu defnyddio'n gadarnhaol. Mae'r 'gwynt yn goflaid oer' yn ôl Grug Muse, ac mae'r oerfel yn cadw'r swyddogion yng nghynhesrwydd eu ffau yn ôl Emyr Lewis.

- Cawn awgrym yn y ddwy gerdd bod cwmni yn gymorth wrth herio'r rheolau. Mae Grug Muse yn edrych ymlaen at fod yng nghwmni adar eraill 'mewn byd o blu' ac mae Emyr Lewis yn cyfeirio at y ffaith fod y 'stryd yn llawn'.

- Cawn gyfeiriad penodol at reol neu reolau yn y ddwy gerdd. Rheol unigol benodol sydd gan Emyr Lewis, ond mae'r y gerdd 'Hedfan' yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at reolau lluosog.

- Dyhead sydd yn y ddwy gerdd at weld torri'r rheolau hyn. Dyhead amodol sydd gan Grug Muse, 'Pe medrwn...' Nid yw hi'n dweud bod hyn yn sicr o ddigwydd. Dyhead yn y dyfodol sydd yma. Mae Emyr Lewis yn dweud yn blaen bod hyn wedi digwydd ac yn parhau i ddigwydd 'ambell Chwefror ar ddydd Iau'.

- Mae yna gyfeiriadau at godi yn y ddwy gerdd. Cawn yr argraff gan Emyr Lewis bod ysbryd y bobl yn cael ei godi wrth iddyn nhw herio'r drefn a mynd allan i ddawnsio. Ar y llaw arall, mae yna godi mwy amlwg gan Grug Muse wrth i'r aderyn lwyddo i hedfan uwchlaw mân ofalon y byd.

- Cawn dristwch yn y ddwy gerdd. I Grug Muse, mae hyn oll yn ddibynnol ar ei gallu i hedfan yn drosiadol. I Emyr Lewis, cawn awgrym o dristwch nad yw'r dawnsio hwn yn digwydd yn amlach.



© WJEC CBAC Cyf.

**Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor yn orchmynnol ac yn benodol iawn. Gallwn glywed beth na allwn ni fod yn ei wneud, a phryd yn union.
- Clywn hefyd pwy sy'n ein gwahardd, ac yn gwneud y rheolau.
- Cawn glywed hefyd yn lle mae'r gwaharddiad yn weithredol.
- Mae'r ail bennill yn manylu ar un oddefiad o'r rheol, sef beth yw'r amodau sydd eu hangen fel y gellir bod yn dawnsio wedi deg o'r gloch.
- Mae'r cyfyngiadau hyn yr un mor hurt â'r rheol wreiddiol.
- Cawn yn y pennill olaf ddarlun o rai sy'n 'beiddio torri'r rheol'. Nid yw'r rhain yn gwrando ar awdurdod lle mae'r awdurdod hwnnw'n afresymol.
- Mae byd natur fel petai'n gymorth i ganiatáu i'r dawnswyr fynd allan heb i'r awdurdodau fod yn gwybod.
- Wrth i'r swyddogion fod yn 'gynnes yn eu ffau', mae'r dawnswyr yn brwydro yn erbyn yr elfennau i fynd allan i herio'r drefn. Gwnânt hynny drwy ddiosg eu sgidiau cochion a mynd allan yn droednoeth.
- Alegori yw'r gerdd am sut y gall pobl gyffredin fod yn herio'r drefn pan fo'r drefn honno'n ceisio eu rheoli'n afresymol.



© WJEC CBAC Cyf.

**Hedfan** gan Grug Muse

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cerdd yw hon am geisio gwneud yr amhosib. Mae pobl wedi dyheu am allu hedfan erioed, a'r un dyhead sydd gan Grug Muse, ond mai hedfan yn drosiadol sydd ganddi hi.
- Mae'n manylu ar yr elfennau hynny o fyd natur sy'n llesteirio'r hedfan, 'dannedd y storm', 'môr tymhestlog'.
- Er y rhwystrau hyn, mae'n teimlo'n obeithiol fod yna werth i'r holl ymdrech gan fod 'blas rhyddid ar yr halen.'
- Cawn glywed am ragor o rwystrau, 'tros fynydd gwyn' 'tros rew ar lyn'. Ond wedi'r holl ymdrech, mae'n cyrraedd 'uchelfannau'r byd, ac uwch...'
- Cawn glywed unwaith eto am y wobr, sef y rhyddid y mae hi'n dyheu amdano.
- Down yn ôl at ddelwedd y storm trwy glywed ei bod yn bwriadu hedfan 'drwy'r taranau'.
- Yn y diwedd, cawn glywed am bwrpas y dyhead hwn i hedfan, sef i dorri'n rhydd oddi wrth gadwyni a rheolau cymdeithasol.

**Neges**

Mae neges y ddwy gerdd yn debyg, sef y dylai fod gan bob un ohonom y ddelfryd o geisio codi uwchlaw ambell i reol neu ddeddf anghyfiawn y mae cymdeithas wedi eu dyfeisio.

Mae'r rhai sy'n creu'r rheolau yn eu creu yn aml er mwyn cadw'r drefn o fod un dosbarth yn rheoli a dosbarth arall o bobl yn cael eu rheoli.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| Rhaid peidio dawnsio | Negydd |
| yr Heddlu Cudd a'r Cyngor | Rhestru |
| ar stryd na pharc na heol | Rhestru/negydd |
| coch | Ansoddair |
| niwl a'r barrug yn fwgwd | Trosiad |
| barrug/poethion | Cyferbyniad |

**Arddull Hedfan**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| dannedd y storm | Trosiad |
| yn goflaid oer | Trosiad |
| tymhestlog/drycinog | Ansoddeiriau |
| blas rhyddid | Trosiad |
| i fod yn ddall | Defnydd o'r synhwyrau |
| hualau, cadwyni, rheolau | Rhestru |

**Mesur**

**Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd: Mydr ac Odl**

Mae'r defnydd o fydr ac odl yn adlewyrchu symudiad y dawnsio. Mae'r odl yn awgrymu'r harmoni sy'n digwydd wrth i bobl fynd ati i greu trefn wrth ddawnsio. Mae'n eirionig y byddai'r awdurdodau'n cyhuddo'r dawnswyr o greu anhrefn.

**Hedfan: Y Wers Rydd**

Mae defnydd diddorol gan Grug Muse o'r wers rydd. Er nad oes patrwm arbennig i'r odlau, mae yma'n sicr ddefnydd o odli, felly ni allwn gollfarnu ymgeisydd sy'n nodi mydr ac odl chwaith. Mae'r wers rydd yn awgrymu anhrefn yn y byd y mae'r bardd yn ceisio dianc rhagddo, ac mae'r odl yn awgrymu'r hyfrydwch a'r drefn y mae'n dyheu amdanynt.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.